

ADDYSG, CYMRU

2014: Rhif:01

MEINI PRAWF AR GYFER ACHREDU HYFFORDDIANT CYCHWYNNOL ATHRAWON YSGOL GAN GYNGOR CYLLIDO ADDYSG UWCH CYMRU

O dan Reoliad 7 o Reoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012, mae "sefydliad achrededig" yn sefydliad sydd wedi ei achredu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru fel darparwr cyrsiau neu raglenni hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA).

O dan Roliad 7(2) o Reoliadau 2012, ni chaiff Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ond achredu sefydliad sy'n bodloni'r meini prawf hynny a bennir gan Weinidogion Cymru o dro i dro fel darparwr cyrsiau neu raglenni HCA.

O dan Roliad 7(3) o Reoliadau 2012, caiff Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru dynnu achrediad sefydliad yn ôl yn unol â'r meini prawf hynny a bennir gan Weinidogion Cymru o dro i dro.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r meini prawf achredu y mae'n rhaid i bob sefydliad achrededig sy'n darparu cyrsiau HCA eu bodloni. Mae'n cynnwys gofynion ar gyfer darparu cyrsiau HCA sy'n disodli'r gofynion a nodwyd yn flaenorol yng Nghylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2006 (Rhif 50, fel y'i diwygiwyd gan Gylchlythyr 2006 (Rhif. 50)) a Chylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 17/2009.

Nid yw'r ddogfen hon yn nodi gweithdrefnau ar gyfer sut y dylid cyflwyno cynigion i achredu na'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn pan fo tystiolaeth nad yw sefydliad achrededig yn cydymffurfio â'r meini prawf a nodir yma. Bydd llunio'r gweithdrefnau hyn a sefydlu a chyhoeddi dogfennaeth glir a chyson iddynt yn fater i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Mae'r ddogfen hon wedi ei gwneud drwy arfer y pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru gan reoliad 7 o Reoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012 (2012 Rhif 724), ac ar ôl ymgynghori â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn unol â rheoliad 7(4).

Bydd y meini prawf achredu sy'n cael eu nodi yn y ddogfen hon yn gymwys i bob cwrs, lle y mae blwyddyn gyntaf y cwrs hwnnw, yn cychwyn ar Medi 2014 neu ar ôl hynny.

Dehongli

Ac eithrio pan fo'r cyd-destun yn mynnu fel arall, at ddiben y ddogfen hon:

ystyr "cwrs HCA" yw cwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol mewn sefydliad achrededig o fewn ystyr Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012.

ystyr "Llywodraeth Cymru" yw Llywodraeth Cynulliad Cymru fel y'i nodir yn adran 45 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

ystyr "Meini Prawf Achredu 2013" yw'r meini prawf a nodir yn y ddogfen o'r enw Meini Prawf Ar Gyfer Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru 2013

ystyr "hyfforddai/hyfforddeion " yw person sy'n gwneud cwrs HCA neu'n sy'n gwneud cais i fynd ar gwrs HCA.

Crynodeb

Mae'n ofynnol i'r holl sefydliadau sy'n darparu hyfforddiant cychwynnol athrawon gael eu hachredu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru er mwyn cynnal cyrsiau HCA sy'n caniatáu i'w hyfforddeion ennill Statws Athro Cymwysedig.

Er mwyn cael ei achredu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, rhaid i sefydliad sy'n darparu hyfforddiant cychwynnol athrawon fodloni'r meini prawf a osodwyd gan Weinidogion Cymru.

Rhoddir achrediad i'r sefydliad ac mae'n cynnwys yr holl gyrsiau HCA a gynhelir gan y sefydliad hwnnw. Unwaith y caiff ei roi, nid oes terfyn amser i'r achrediad, ond gellir ei dynnu'n ôl.

Gellir tynnu achrediad yn ôl pan fo tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio â meini prawf Gweinidogion Cymru. Mae tynnu achrediad yn ôl yn ymwneud â'r sefydliad, nid â'r cwrs penodol lle y gwelwyd y diffyg cydymffurfio.

Bydd y meini prawf achredu sy'n cael eu nodi yn y ddogfen hon yn gymwys i bob cwrs, lle y mae blwyddyn gyntaf y cwrs hwnnw, yn cychwyn ar 1 Medi 2014 neu ar ôl hynny.

**MEINI PRAWF AR GYFER ACHREDU HYFFORDDIANT CYCHWYNNOL
ATHRAWON YSGOL**

Awdurdod a Chychwyn

1. Ar ôl ymgynghori â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) o dan reoliad 7(4), mae'r meini prawf achredu hyn wedi eu pennu yn unol â Reoliad 7(2) a (3) o Reoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012.
2. Bydd Meini Prawf Achredu 2014 yn gymwys o 1 Medi 2014 ar gyfer pob cwrs lle mae blwyddyn gyntaf y cwrs hwnnw yn cychwyn ar ôl y dyddiad hwnnw.
3. Ar gyfer cyrsiau sydd wedi cychwyn cyn 1 Medi 2014 bydd Meini Prawf Achredu 2013 yn parhau i bod yn gymwys oni bai bod
 - 3.1 CCAUC, mewn cytundeb â'r darparwr, yn cymhwyso meini prawf 2014 i gwrs HCA
 - 3.2 bod y darparwr yn penderfynu y dylai'r meini prawf hyn gael eu cymhwyso i gwrs HCA.

Sefydliadau sy'n darparu cyrsiau HCA y mae'n ofynnol iddynt gael eu hachredu

- 4 Mae'n ofynnol i Sefydliadau Addysg Uwch ("SAU") sy'n darparu cyrsiau HCA gael eu hachredu gan CCAUC. Mae'r sefydliadau hyn yn cynnig cyrsiau HCA sydd gan amlaf yn cael eu cynnal mewn prifysgol neu goleg, ond maent weithiau yn cael eu cynnig ar sail dysgu o bell. Yn unol â'r meini prawf achredu a bennir yma, rhaid i'r cyrsiau hyn fod mewn partneriaeth ag ysgolion. Mae'r SAU yn gyfrifol am reoli'r hyfforddiant, ond yr ysgolion sy'n dewis, hyfforddi ac asesu hyfforddeion.
- 5 Nid yw'r HCA a ddarperir drwy gynllun Gweinidogion Cymru i hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth (ar raglenni megis y Rhaglen Athrawon Graddedig a'r Rhaglen Hyfforddiant Ychwanegol i Raddedigion) yn ddarostyngedig i feini prawf achredu CCAUC.

Egwyddorion

- 6 Rhaid i CCAUC gael sicrwydd bod unrhyw ddarparwr HCA neu ddarparwr posibl yn bodloni'r meini prawf achredu manwl a nodir yn y ddogfen hon. Yn benodol, rhaid i CCAUC fod yn sicr:

- 6.1.1 bod yr hyfforddiant yn diwallu (neu fod yr hyfforddiant arfaethedig yn debygol o ddiwallu) yr holl ofynion ar gyfer cyrsiau HCA a nodir yn y ddogfen hon;
- 6.1.2 bod yr hyfforddiant yn sicrhau (neu fod yr hyfforddiant arfaethedig yn debygol o sicrhau) fod hyfforddeion yn bodloni'r safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig (SAC);¹
- 6.1.3 bod yr hyfforddiant (neu fod yr hyfforddiant arfaethedig yn debygol o fod) o ansawdd uchel;
- 6.1.4 bod y ddarpariaeth (neu fod y ddarpariaeth arfaethedig yn debygol o fod) yn ddefnydd effeithlon o'i adnoddau, yn enwedig mewn perthynas â sicrhau darpariaeth HCA o ansawdd uchel;
- 6.1.5 y bydd y darparwr wedi sefydlu cyfundrefn effeithiol o reoli ansawdd;
- 6.1.6 bod y trefniadau a'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd yn dangos bod y darparwr yn debygol o allu sicrhau gwelliant parhaus yn y blynyddoedd sydd i ddod;
- 6.1.7 y bydd y gweithdrefnau a'r cyfundrefnau rheoli ariannol yn sicrhau defnydd priodol o'r cyllid a dderbynnir oddi wrth CCAUC.

Meini prawf ar gyfer achredu darparwr cyrsiau HCA

7 Cyn iddo achredu sefydliadau i weithredu fel darparwyr cyrsiau HCA sy'n caniatáu i'w hyfforddeon ennill SAC, rhaid i CCAUC fod wedi ei fodloni bod y sefydliadau wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodir yn (7.1)-(7.6) isod; ac unwaith y bydd wedi achredu sefydliadau i weithredu fel darparwyr cyrsiau HCA sy'n caniatáu i'w hyfforddeion ennill SAC, rhaid i CCAUC barhau i fod wedi ei fodloni bod y sefydliadau yn bodloni'r meini prawf hyn:-

- 7.1 Eu bod yn diwallu'n llawn (neu y byddant yn diwallu'n llawn) y gofynion ar gyfer darparu cyrsiau HCA fel y'u nodir yn Atodiad A i'r ddogfen hon, yn enwedig:-
 - 7.1.1 bod hyfforddeion yn diwallu'r gofynion i gael mynediad i gwrs HCA a bennir yn G1 o Atodiad A;
 - 7.1.2 bod pob agwedd ar yr hyfforddiant a'r asesiad yn diwallu'r gofynion a bennir yn G2 o Atodiad A;

¹ Y Safonau Statws Athro Cymwysedig fel a bennir yn y Safonau Statws Athro Cymwysedig Cymru 2009 (2009 Rhif 25) sy'n pennu'r safonau sy'n ofynnol i bersonau sy'n bwriadu bod yn athro cymwysedig eu cyrraedd-
<http://wales.gov.uk/legislation/subordinate/nonsi/educationwales/2009/3220099/?skip=1&lang=cy>

- 7.1.3 yn achos y ddarpariaeth HCA a ddisgrifir ym mharagraff 2 yn unig, fod yr hyfforddiant yn seiliedig ar bartneriaeth gref ag ysgolion; a
- 7.1.4 bod yr holl ofynion ar gyfer sicrhau ansawdd a bennir yn G4 o Atodiad A yn cael eu diwallu.
- 7.2 Eu bod yn cynnig (neu y byddant yn cynnig) hyfforddiant a fydd yn galluogi hyfforddeion i gyflawni'r safonau gofynnol ar gyfer SAC, yn enwedig:-
 - 7.2.1 bod cynnwys y rhaglen hyfforddi yn cyfateb yn agos i'r safonau gofynnol ar gyfer SAC; a
 - 7.2.2 bod hyfforddeion yn cael eu hasesu'n drwyadl yn erbyn pob un o'r safonau gofynnol ar gyfer SAC.
- 7.3 Eu bod yn darparu (neu y byddant yn darparu) hyfforddiant o ansawdd uchel ac yn sicrhau gwelliant parhaus drwy ddangos:-
 - 7.3.1 bod arbenigedd wedi ei brofi mewn HCA ymhlith yr ysgolion a fydd yn gysylltiedig;
 - 7.3.2 bod pawb sy'n gysylltiedig yn ymroddedig i hyfforddiant o ansawdd uchel;
 - 7.3.3 bod pob agwedd ar y rhaglen hyfforddi yn cael eu gwerthuso'n rheolaidd ac yn drwyadl; a
 - 7.3.4 bod canlyniadau'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd yn cael eu defnyddio'n systematig er mwyn sicrhau gwelliannau.
- 7.4 Eu bod yn dangos sail resymegol sy'n argyhoeddi dros ddarparu HCA:-
 - 7.4.1 sy'n diwallu angen a ddynodir (gan ystyried amcangyfrifon Llywodraeth Cymru o nifer y lleoedd hyfforddi sydd eu hangen) am leoedd HCA mewn ardal ddaearyddol ar gyfer ystodau oed a/neu bwnc/pynciau penodol; a/neu
 - 7.4.2 sy'n diwallu angen a ddynodir (gan ystyried amcangyfrifon Llywodraeth Cymru o nifer y lleoedd hyfforddi sydd eu hangen) am leoedd HCA ar gyfer pynciau penodol neu arbenigedd oed/cyfnod; a/neu
 - 7.4.3 sy'n cefnogi'r amrywiaeth o ddewis sydd ar gael, neu'n ychwanegu ati, neu'n denu ceisiadau gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y proffesiwn addysgu ar hyn o bryd.
- 7.5 Eu bod yn dangos strwythur rheoli a fydd yn sicrhau gweithrediad llyfn y rhaglen hyfforddi, yn enwedig:-
 - 7.5.1 bod rolau unigolion a swyddogaethau grwpiau a phwyllgorau yn cael eu diffinio'n glir ar hyd a lled y bartneriaeth hyfforddi;

- 7.5.2 y dewisir staff sydd â'r profiad a'r arbenigedd perthnasol;
 - 7.5.3 bod cynlluniau datblygu staff i bawb sy'n cyfrannu at yr hyfforddiant; a
 - 7.5.4 bod gan hyfforddeion lety, cyfleusterau ac adnoddau addas.
- 7.6 Eu bod yn economaidd hyfyw (neu'n gallu dangos y byddant yn economaidd hyfyw) a bod ganddynt systemau a gweithdrefnau rheoli ariannol manwl, yn enwedig:-
- 7.6.1 darpariaethau ar gyfer rheoli cyllid yn ddiogel ac yn effeithlon;
 - 7.6.2 cyfrifoldebau am wahanol swyddogaethau wedi eu nodi, gyda llinellau atebolrwydd clir; a
 - 7.6.3 gweithdrefnau'n sicrhau y ceir gwerth gorau o ran gwario cyllid CCAUC.
- 7.7 Wrth benderfynu a yw wedi ei fodloni bod sefydliadau wedi dangos neu'n parhau i ddangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodir yn 7.1-7.6 uchod, dylai CCAUC ystyried unrhyw dystiolaeth berthnasol a gyflwynwyd iddo gan swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn).

Tynnu achrediad yn ôl

8 Caiff CCAUC dynnu achrediad sefydliad yn ôl pan fo dystiolaeth nad yw sefydliad achrededig yn cydymffurfio ag unrhyw un o feini prawf presennol Llywodraeth Cymru fel y'u nodir yn y ddogfen hon, neu pan fo darparwr yn peidio â chynnal pob cwrs HCA.



Llofnodwyd ar Ran Gweinidogion Cymru

Dyddiad: 19/11/13

Atodiad A

Y Gofynion ar gyfer Darparu Cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA)

G1: Gofynion mynediad ar gyfer hyfforddeion²

Mae'n rhaid i bob darparwr:

- G1.1** fod wedi'i fodloni bod gan yr holl hyfforddeion ar gyrsiau HCA y gallu i ddiwallu'r Safonau Statws Athro Cymwysedig (SAC) gofynnol erbyn diwedd eu cyrsiau a'u bod yn meddu ar nodweddion personol a deallusol addas i fod yn athrawon;
- G1.2** sicrhau bod gan bob hyfforddai safon cyfwerth â gradd B mewn arholiadau TGAU Saesneg a Mathemateg;
- G1.3** sicrhau bod gan yr holl hyfforddeion sy'n mynd i mewn i hyfforddiant cynradd neu Gyfnodau Allweddol 2/3 wedi cael safon cyfwerth â gradd C mewn arholiad TGAU Gwyddoniaeth;
- G1.4** gofalu bod cyfundrefnau wedi cael eu sefydlu i geisio cael gwybodaeth i ganfod a oes gan yr hyfforddeion gefndir troseddol a all eu hatal rhag gweithio gyda phlant neu bersonau ifanc neu fel athro; a sicrhau nad yw'r hyfforddeion wedi cael eu gwahardd yn flaenorol rhag addysgu neu weithio gyda phlant;
- G1.5** bod wedi'i fodloni y gall yr holl hyfforddeion ddarllen yn effeithiol, a'u bod yn gallu cyfathrebu'n glir ac yn gywir mewn Saesneg llafar ac ysgrifenedig;
- G1.6** sicrhau bod pob un o'r hyfforddeion yn cael eu hasesu am sgiliau personol gweithredol ym maes llythrennedd a rhifedd sydd eu hangen mewn cyd-destun addysgu proffesiynol, fel sy'n briodol i'r cyfnod astudio a'r pwnc;
- G1.7** yn achos cyrsiau HCA i raddedigion, gofalu bod gan ymgeiswyr radd gyntaf o sefydliad addysg uwch yn y Deyrnas Unedig neu gymhwyster cywerth³;
- G1.8** fel rhan o'r gweithdrefnau dewis, sicrhau bod yr holl ymgeiswyr a dderbynnir i hyfforddi wedi cymryd rhan mewn cyfweiliad grŵp neu gyfweiliad unigol.

G2: Hyfforddi ac asesu

Mae'n rhaid i bob darparwr:

² Mae'r gofynion mynediad a dethol hyfforddeion yn safonau gofynnol. Efallai bod gan sefydliadau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Unigol feini prawf ychwanegol y maent eisiau eu defnyddio a galliant wneud hynny cyn belled â bod y safonau gofynnol yn cael eu cyflawni.

³ Bydd raid i ymgeiswyr gyda Gradd Sylfaen ychwanegu at y cymhwyster hwn gydag o leiaf 60 credyd at Lefel 3 Addysg Uwch.

- G2.1** gynllunio cynnwys, strwythur a darpariaeth hyfforddiant i alluogi hyfforddeion i ddangos bod ganddynt Safonau SAC;
- G2.2** gofalu bod cyflawniad athrawon dan hyfforddiant yn ôl Safonau SAC yn cael ei asesu'n rheolaidd ac yn gywir, a rhaid i'r darparwr fod wedi'i fodloni bod hyfforddeion wedi cael ei asesu yn erbyn Safonau SAC ac wedi cwrdd â'r Safonau hynny cyn cadarnhau i'r corff priodol⁴ y gellir eu hysbysu eu bod yn athrawon cymwysedig;
- G2.3** gofalu bod hyfforddiant yn rhoi ystyriaeth i anghenion hyfforddi unigol;
- G2.4** paratoi pob hyfforddai addysgu ar draws o leiaf dau Gyfnod Allweddol dilynol;
- G2.5** sicrhau bod sgiliau personol pob athro ym maes llythrennedd a rhifedd yn cael eu hasesu'n rheolaidd ac yn gywir drwy gydol ei hyfforddiant a, phan asesir hyfforddeion yn erbyn Safonau Statws Athro Cymwysedig, cadarnhau y cynhelir y safonau a bennir yn R1.6;
- G2.6** gofalu bod hyfforddeion yn treulio o leiaf y cyfnod a nodir isod yn cael eu hyfforddi mewn ysgolion, gan gydnabod y gall profiad blaenorol hyfforddai o weithio gyda disgyblion gyfrif at gyfanswm y cyfnodau hyn, yn ôl disgrisiwn y darparwr:
- 32 wythnos ar gyfer pob rhaglen radd pedair blynedd
 - 24 wythnos ar gyfer pob rhaglen radd dwy a thair blynedd
 - 24 wythnos ar gyfer pob rhaglen uwchradd a Chyfnodau Allweddol 2/3 i raddedigion
 - 24 wythnos ar gyfer pob rhaglen gynradd i raddedigion.
- Mae'n rhaid i hyfforddeion gael profiad mewn o leiaf dwy ysgol. Gellir cwblhau amser mewn ysgolion yn rhan amser er mwyn cyflawni cyfanswm sy'n gywerth ag amser llawn yn unol â'r uchod. Gall addysgu mewn sefydliadau ar wahân i ysgolion hefyd gyfrif at y cyfanswm cyn belled â'u bod yn galluogi hyfforddeion i weithio tuag at gyflawni Safonau Statws Athro Cymwysedig;
- G2.7** sicrhau bod hyfforddeion yn cael o leiaf 60 diwrnod o weithgaredd hyfforddiant bob blwyddyn academiaidd (ar sail pro rata ar gyfer cyrsiau rhan amser neu fodiwlar);

⁴ Adeg cyhoeddi, y corff priodol o dan Reoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012 yw Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Hefyd gall Llywodraeth Cymru hysbysu personau eu bod yn athrawon cymwysedig ond mae wedi cytuno ar drefniadau gyda'r Cyngor iddo ddelio â phob achos ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.

- G2.8** sicrhau bod hyfforddeion yn cael hyfforddiant ym maes addysgu llythrennedd a rhifedd fel sy'n briodol i'r cyfnod astudio a'r pwnc a bod hyn yn rhan bwysig o gyrsiau hyfforddiant;
- G2.9** sicrhau bod pawb yr asesir eu bod yn cwrdd â'r Safonau SAC yn cael Proffil Dechrau a Datblygu Gyrfa ac yn cael cymorth i'w gwblhau, a'u bod yn cael gwybod am y trefniadau statudol ar gyfer sefydlu athrawon sydd newydd gymhwyso ac yn cael cymorth i baratoi ar eu cyfer;
- G2.10** sicrhau bod hyfforddeion yn gyfarwydd â'r canllawiau cenedlaethol mwyaf diweddar ar amddiffyn a diogelu plant.

G3: Rheoli Partneriaeth HCA

Mae'n rhaid i bob darparwr:

- G3.1** weithio mewn partneriaeth ag ysgolion a chael yr ysgolion i gymryd rhan weithredol mewn:
- cynllunio a darparu HCA
 - dewis athrawon i'w hyfforddi
 - asesu hyfforddeion ar gyfer Statws Athro Cymwysedig;
- G3.2** sefydlu cytundebau partneriaeth sy'n:-
- egluro rôl a chyfrifoldebau pob partner i bawb sy'n gysylltiedig
 - nodi trefniadau ar gyfer paratoi a chefnogi'r holl staff sy'n ymwneud â hyfforddi
 - ei gwneud yn glir sut mae adnoddau yn cael eu rhannu a'u dyrannu rhwng y partneriaid;
- G3.3** sicrhau bod y bartneriaeth yn gweithio'n effeithiol, bod yr hyfforddiant wedi ei gyd-gysylltu ac yn gyson, a bod yna ddilyniant ar draws y gwahanol gyd-destunau lle cynhelir yr hyfforddiant.

G4: Sicrhau ansawdd

Mae'n rhaid i bob darparwr:

- G4.1** ofalu bod ei ddarpariaeth yn cydymffurfio gyda Gofynion presennol Gweinidogion Cymru ar gyfer Darparu Cyrsiau HCA;
- G4.2** gofalu bod gan hyfforddeion fynediad at lyfrau, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ac adnoddau eraill sydd eu hangen arnynt - sy'n berthnasol i'r ystod oed a'r pynciau y maent yn cael eu hyfforddi ar eu cyfer - sy'n datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau'r athrawon dan hyfforddiant at o leiaf y Safonau Statws Athro Cymwysedig;

- G4.3** sicrhau bod gweithdrefnau safoni trwyadl mewnol ac annibynnol allanol wedi eu sefydlu i sicrhau bod asesiadau yn gywir ac yn ddibynadwy;
- G4.4** sicrhau bod materion ynglŷn ag ansawdd a godwyd trwy safoni mewnol ac allanol yn cael eu harchwilio ac yn cael sylw i wella'r hyfforddiant;
- G4.5** monitro a gwerthuso pob agwedd ar y ddarpariaeth, mewn ffordd systematig, er mwyn gwella ei hansawdd ac er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio gyda Gofynion presennol Gweinidogion Cymru ar gyfer Darparu Cyrsiau HCA. Dylid sefydlu systemau i:
- nodi targedau ar gyfer gwella
 - adolygu'r ddarpariaeth yn erbyn y targedau hyn
 - nodi'r camau penodol sydd raid eu gweithredu i sicrhau gwelliannau
 - sicrhau y gweithredir yn ôl yr hyn a nodwyd, a bod hynny'n arwain at welliant;
- G4.6** os ydynt yn darparu hyfforddiant yn rheolaidd, meincodi eu perfformiad dros amser, ac mewn cymhariaeth â darparwyr tebyg, gan ddefnyddio tystiolaeth a gynhyrchwyd yn allanol ac yn fewnol i fod yn sail wybodaeth i osod targedau a chynllunio ar gyfer gwella.

